Glyn Nest
BAPTIST HOME

Cylchlythyr
Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 2014

CARTREF Y BEDYDDWYR GLYN NEST - GOFALU YN EIN CYMUNED

# *Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd*

Croeso i ail rifyn cylchlythyr Glyn Nest. Gobeithio eich bod wedi cael Nadolig wrth eich bodd a'ch bod yn edrych ymlaen at groesawu Blwyddyn Newydd arall.

Mae tymor y Nadolig bob amser yn gyfnod prysur i'r deiliaid a'r staff oherwydd bod cynifer o grwpiau gwahanol o'r gymuned leol yn ymweld â'r Cartref i'n diddanu. Diolchwn iddynt am roi o'u hamser yn hael er budd pawb yng Nglyn Nest.

Hoffai staff Glyn Nest hefyd ddiolch o waelod calon i deuluoedd a ffrindiau ein deiliaid am eu rhoddion hael o werthfawrogiad i ni fel staff. Blwyddyn Newydd Dda.

Jayne Evans – Rheolwraig

---

## YN Y RHIFYN HWN

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd .... 1
Gweithgareddau i'r Deiliaid ............. 2
Newyddion arall ............................. 3
Materion Staffio ............................. 4
Diolch o waelod calon i bob aelod o'n staff am eu cefnogaeth yn ystod cyfnod yr Ŵyl ................................. 4
Bwydlenni cyfnod y Nadolig ............ 4
Ac yn olaf .... .................................. 4

## Neges y Parchedig Peter Thomas ar ei ymddeoliad

"Braint a hyfrydwch yw cael manteisio ar y cyfle i'ch cyfarch yn gynnes trwy gyfrwng y cylchlythyr chwarterol hwn o Gartref Glyn Nest ac i ddymuno'n dda i chwi oll ar gychwyn Blwyddyn Newydd. Mae fy swyddogaeth i fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru yn dod i ben a minnau ar fin ymddeol, ond da yw trosglwyddo'r awenau i'm holynydd y Parchg Judith Morris a gwn y bydd ei hymroddiad a'i chefnogaeth hithau i fywyd y Cartref yn frwd ac egnïol. Gwireddu breuddwyd i ddarparu gofal, ymgeledd a chysur a hynny o fewn awyrgylch Gristnogol a rhoes fod i'r Cartref ym mis Medi 1970 a thrwy gydol y blynyddoedd y mae'r egwyddorion sylfaenol hynny yn dal i gyfeirio'n hymwneud.

Wrth fwrw trem tros ysgwydd y blynyddoedd y bûm i yn gyfarwyddwr ar y Bwrdd Rheoli codwyd estyniad i'r adeilad a'i adnewyddu'n gyson gan sicrhau ei fod bellach yn gartref blaengar o ran safon y gofal a'r gwasanaeth a gynigir yno.

Hoffwn gydnabod ymroddiad ac ymdrechion egnïol y Cwmni Rheoli a'r Pwyllgor Tŷ; am gefnogaeth eglwysi ac unigolion ac am gydweithrediad parod Rheolwraig y Cartref ynghyd ag aelodau'r staff sy'n darparu gweinyddiad a gofal safonol a phroffesiynol. Ac i'r deiliaid sy'n trigo o fewn muriau'r adeilad dymunaf iddynt fendith Duw a'i ymgeledd.

Parchg Peter Thomas

## Pen-blwydd Glyn Nest yn 45

Bydd 2015 yn flwyddyn o ddathlu i gartref Glyn Nest, oherwydd mae'n nodi 45 mlynedd ers ei sefydlu'n gartref gofal i'r henoed.

Ers iddo agor ei ddrysau yn gyntaf yn 1970, mae Glyn Nest wedi tyfu mewn maint; adeiladwyd dau estyniad, y cyntaf yn 1992 a'r ail yn 2009. Bellach ceir 30 o leoedd preswyl i unrhyw un sydd dros 65 oed, gan gynnwys darpariaeth i rai sy'n dioddef o ddementia neu sy'n fregus eu meddwl.

Bu'r Cartref yn bwysig i'r gymuned leol gydol yr amser, ac mae'n adnabyddus i gynifer o bobl sydd naill ai wedi ymweld â pherthnasau a ffrindiau yn y gorffennol neu sy'n ymweld â'r deiliaid presennol.

# *Gweithgareddau i'r Deiliaid*

## Diolch o galon oddi wrth y deiliaid i gyd




Hoffai deiliaid a staff Glyn Nest ddiolch yn ddiffuant i'r unigolion a'r grwpiau hynny sydd wedi rhoi yn hael o'u hamser gydol y flwyddyn a aeth heibio, a thros gyfnod yr Ŵyl, i ddiddanu yn y Cartref. Bu'r rhaglen yn amrywiol a diddorol; yn cynnwys corau, cerddorion, cerddoriaeth Gymreig a barddoniaeth, trefnu blodau a digwyddiadau ar themâu arbennig.

Os oes gennych ddawn neu ddiddordeb y gallech eu rhannu â'r deiliaid siaradwch â Jayne neu Liz os gwelwch yn dda. Gall fod yn un ymweliad neu'n drefniant mwy rheolaidd.

## Gweithgareddau Wythnosol

Yn ystod misoedd yr hydref, mae'r deiliaid wedi mwynhau'r gweithgareddau wythnosol rheolaidd, yn Ioga Cadair, Celf a Chrefft a Cherddoriaeth. Buom yn mynychu'r sesiynau "Canu ar gyfer yr Ymennydd" bob pythefnos a bu cerddorion a grwpiau yn ymweld â'r Cartref i ganu.

Unwaith eto, bydd y gweithgareddau hyn yn sail i'n rhaglen ar gyfer 2015; a chaiff diddordebau hamdden eraill eu hychwanegu er mwyn annog deiliaid i fod yn weithredol, i rannu a mwynhau gyda'i gilydd.

## Sgyrsiau misol ar bynciau o ddiddordeb lleol

Ym mis Tachwedd cyflwynwyd cynllun sgyrsiau misol ar bynciau o ddiddordeb a hanes lleol a chafodd pawb a fynychodd y cyfarfod cychwynnol hwn fwynhad pur wrth wrando ar reolwr cyffredinol Arwerthwyr Dai Lewis, sef Mr Geraint James yn cyflwyno hanes Marchnad Anifeiliaid Castellnewydd Emlyn. Roedd y sgwrs hon wrth fodd calon y deiliaid gan fod gan y rhan fwyaf ohonynt gefndir amaethyddol, a nifer ohonynt wedi defnyddio'r Farchnad eu hunain yn y gorffennol.
Trefnwyd sgyrsiau ar y pynciau a ganlyn ar gyfer 2015:
Undeb y Bedyddwyr
Hanes Castellnewydd Emlyn
Cwryglau Cenarth
Byddin Tir y Merched



## Teithiau Lleol yn 2015

Bydd rhaglen ymweliadau i leoliadau lleol sydd o ddiddordeb yn cychwyn eto yn y gwanwyn, pan fydd y tywydd yn gynhesach.

Cyfrannwyd syniadau ynglŷn â lleoliadau posibl gan y deiliaid, ac maent yn cynnwys ymweld â Stiwdio Gelf Helen Elliot, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Fferm Clynfyw a'r llwybr cerflunwaith, y treialon cŵn defaid a'r Te Prynhawn ar draeth Llangrannog.

## Taith diwrnod yn yr haf

Mae nifer o'r deiliaid wedi gofyn am gael taith diwrnod yn yr haf i Fferm Folly. Rydym wedi ymweld â'r lleoliad hwn o'r blaen, a chafodd pawb fodd i fyw yno. Os oes perthnasau am ddod ar y daith i gynorthwyo'n deiliaid, siaradwch â Liz – Cydgysylltydd Gweithgareddau.

## Nadolig drwy garedigrwydd Cylch Emlyn

Ar 18fed o Ragfyr cafodd deiliaid a staff Glyn Nest ddiwrnod i'w gofio pan aethant i Dafarn Ffostrasol i fwynhau pryd o fwyd Nadolig dau gwrs.

Eleni eto, cyfrannodd Siop Elusen Cylch Emlyn (sef Cwmni Buddiant Cymunedol) £500 at y trefniant hwn fel bod deiliaid Glyn Nest yn gallu mwynhau cinio Nadolig arbennig iawn. Lleolir y siop, a redir yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, yn Stryd y Bont, Castellnewydd Emlyn.

"Mae'n beth amheuthun bod y deiliaid yn gallu mwynhau diwrnod fel hyn a chael eu hysgogi mewn amgylchedd gwahanol", meddai Jayne Evans, y Rheolwraig Gofrestredig. "Mae derbyn y cyfraniad hwn oddi wrth Gylch Emlyn yn hwb aruthrol sy'n ein galluogi i roi'r trît hwn i'r deiliaid adeg y Nadolig. Mae'r rheolwyr, y staff a'r deiliaid yn ddiolchgar iawn i Gylch Emlyn am y rhodd garedig hon".

.

# *Newyddion arall*




## Hydref

6ed – Gretna
12fed – Doreen
18fed – Tom
22ain – Dora

## Rhagfyr

5ed – Ieuan
10fed – Audrey
12fed – Beryl
13eg – Ruby
22ain – Mair



## Pen-blwydd Priodas - 67 o flynyddoedd

Llongyfarchiadau i Audrey a Phillip Nolan ar ddathlu 67 o flynyddoedd o fywyd priodasol ym mis Tachwedd. Mae Audrey yn ddeiliad yn y Cartref a Phillip yn byw yn lleol. Cyfarfu'r ddau yn 1946, a phriodi yn 1947, yn Eglwys Stanborough Park, Watford, dau ddiwrnod cyn priodas y Frenhines Elizabeth 11 a'r Tywysog Philip. Dathlwyd yr achlysur yng nghwmni cyd-ddeiliaid, teulu a staff.

## Noson Cawl a Chân - Nos Fawrth 3ydd Mawrth 2015 - 6 o'r gloch



Bydd Pwyllgor Tŷ Glyn Nest yn trefnu noson o Gawl a Chân ym mis Mawrth yn ôl eu harfer.

Gellir mwynhau noson o adloniant cerddorol a chawl cartref yn y digwyddiad poblogaidd hwn. £6 yw pris y tocynnau, a gellir eu cael o swyddfa Glyn Nest neu gan aelodau Pwyllgor Tŷ Glyn Nest.

Rhaid cyfyngu ar y niferoedd, ac felly mynnwch eich tocyn yn gynnar er mwyn sicrhau eich bod yn rhan o'r noson gymdeithasol arbennig yma.

## Gwefan Glyn Nest

www.glynnest.co.uk

Beth am ymweld â'n gwefan lle gallwch lawrlwytho'r rhifyn hwn a'r cylchlythyr blaenorol.
Yn 2015, bwriadwn gynnwys mwy o wybodaeth am y gweithgareddau a'r digwyddiadau yn y Cartref, a chynnwys erthyglau cyfredol a chysylltau i sefydliadau o ddiddordeb i deuluoedd, ffrindiau a staff.

Mae swyddi gwag sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nglyn Nest ar y wefan. Os ydych chi'n ystyried gyrfa mewn gofal, ac yn dymuno trafod y cyfleoedd yng Nglyn Nest, cysylltwch â Jayne Evans, Rheolwraig Gofrestredig – 01239 710950

## Llyfrgell Adnoddau a Gwybodaeth

Mae'r llyfrgell adnoddau a gwybodaeth, sydd wedi'i lleoli yn y cyntedd, ar gael i ddeiliaid, eu teuluoedd, ffrindiau a staff. Ceir yma nifer o erthyglau gwahanol ar ystod eang o bynciau.
Llyfrgell yw hon, ac mae cyfeiriad gwe i'r mwyafrif o erthyglau er mwyn i chi allu llwytho eich copi personol i lawr. Os ydych chi eisiau benthyg unrhyw eitemau, cofiwch eu dychwelyd wedyn er mwyn i bobl eraill fedru eu darllen.

## Blychau Atgofion



Os hoffech greu Blwch Atgofion gydag aelod o'ch teulu, mae taflen ddata ar gael yn y llyfrgell gwybodaeth ac adnoddau sy'n rhoi syniadau i chi ynghylch cynnwys, a sut y gellir defnyddio'r blychau fel modd o sbarduno trafodaeth a sgwrsio ystyrlon yn ystod ymweliadau aelodau'r teulu.

## Hanesion bywyd



Mae rhai deiliaid wedi gofyn am gyfle i ysgrifennu ychydig o hanes eu bywyd. Gall y gweithgaredd hwn fod ar sail un i un, neu mewn grŵp. Gadewch i Liz wybod os oes gennych ddiddordeb mewn ysgrifennu Hanes eich Bywyd.

# Materion Staffio

## Llongyfarchiadau ar gyflawni NVQ

Mae Glyn Nest yn dal i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff, ac yn falch o gael cyhoeddi bod y staff a ganlyn wedi cwblhau cymhwyster Diploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llwyddiannus, ynghyd â chymhwyster sgiliau hanfodol mewn Mathemateg a Saesneg.

- NVQ3 – Justine Newman a Sarah Davies
- NVQ 2 – Rosanna Evans

## Hyfforddiant NVQ cyfredol

Ers mis Medi, mae mwy o staff Glyn Nest wedi cychwyn ar y rhaglenni hyfforddi cydnabyddedig cenedlaethol hyn; NVQ5 – Jayne Evans, NVQ3 – Margaret Davies, NVQ2 – Amanda Phillips, Luke May a Colin Godfrey.



*Rosanna yn dangos ei thystysgrif i Myra, un o'n deiliaid*

Mae'r cymwysterau Diploma yn cefnogi nod Cyngor Gofal Cymru i roddi'r "Hyder pennaf Mewn Gofal" i'r cyhoedd, drwy sicrhau bod gweithlu Gofal Cymdeithasol yn ddiogel i ymarfer, yn hyfedr ac wedi'u hyfforddi i gyflawni'r swydd i'r safonau gorau posibl.

Mae'r cymwysterau diploma a gyflawnir gan staff yng Nghymru yn canolbwyntio ar gefnogi'r dysgwr i arddangos cymhwysedd galwedigaethol yn eu priod feysydd.

Diolch i Sophia am bob cefnogaeth i staff Glyn Nest.

## Croeso i Staff Newydd

- Monica Harries – Gofalwraig (Dydd)
- Kelly Bland – Cynorthwyydd Domestig
- Sophie Vallas – Cynorthwyydd Domestig a Golch

## Croeso 'nôl Gwyneth

Croeso cynnes i Gwyneth Jones sydd wedi dychwelyd i'w gwaith yng Nglyn Nest wedi cyfnod i ffwrdd oherwydd salwch. Bydd Gwyneth yn ymuno â thîm staff y nos fel yr Uwch Ofalwr.




## Patrick Dunphy

**LLONGYFARCHIADAU – 22 O FLYNYDDOEDD O WASANAETH YNG NGLYN NEST**

**Dywedwch rywfaint am eich amser yn y Cartref**

Dechreuais weithio yng Nglyn Nest ar 24ain Mai 1993, yn yr adran gofal tŷ yn gyntaf, ond rwyf wedi symud i'r tîm gofal ers hynny fel gofalwr. Yn ystod fy amser yma, mae'r Cartref wedi ehangu a thyfu mewn maint. Ychwanegwyd yr estyniad newydd sy'n golygu bod yma ystafelloedd gwely newydd a'n bod yn gallu croesawu mwy o ddeiliaid.

**Beth ydych chi'n ei fwynhau ynglŷn â'ch swydd?**

Rwyf wrth fy modd yn dod i adnabod y deiliaid a'u helpu o ran eu hanghenion byw o ddydd i ddydd. Yn ystod y ddwy flynedd ar hugain yng Nglyn Nest rwyf wedi cyfarfod a gweithio gyda nifer o ddeiliaid a'u teuluoedd.

Yn ddiweddar, roeddwn wrth fy modd i dderbyn tystysgrif oddi wrth Richard, o Ymddiriedolaeth Shaw yn gydnabyddiaeth am gyflawni'n llwyddiannus fy holl amcanion gwaith.

**Pan nad ydych chi'n gweithio, beth rydych chi'n ei wneud?**

Rwyf yn byw yn lleol gyda fy nau frawd, Peter a James. Byddaf yn mynd i wneud y siopa wythnosol ar gyfer y cartref ar ddydd Gwener, ac rwyf wrth fy modd yn coginio i'm brodyr.

Rwyf wir yn mwynhau mynd i'r noson bingo yng Nghlwb Cymdeithasol Aber-porth ar nos Fercher. Byddaf yn lwcus ambell noson a dim bryd arall!!



# *Diolch o waelod calon i bob aelod o'n staff am eu cefnogaeth yn ystod cyfnod yr Ŵyl*







Cyfnod digon anodd ydyw cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i lawer ohonom – jyglo amser i siopa, lapio anrhegion, paratoi, coginio a chroesawu teulu a ffrindiau atom. Yn yr un modd mae'n rhaid i staff Glyn Nest jyglo ymrwymiadau gwaith ynghyd â threulio amser gyda'u teuluoedd.

Hoffai deiliaid a rheolwyr Glyn Nest ddiolch o waelod calon i'n holl staff am eu cefnogaeth dros gyfnod yr Ŵyl, a dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bob un ohonynt.

# *Bwydlenni cyfnod y Nadolig*



## Tracy Bryan

Rheolwraig Arlwyo Glyn Nest

Mae cyfnod y Nadolig bob amser yn adeg hyfryd i'r staff arlwyo, wrth i ni baratoi prydau Nadolig traddodiadol i bawb sy'n byw yng Nglyn Nest. Ond wrth gwrs rydym bob amser yn dra ymwybodol o'r ffaith y byddai'r rhan fwyaf o'n deiliaid wedi treulio Nadoligau'r gorffennol yn coginio i'w teuluoedd eu hunain; dewis twrci tew, gŵydd neu hwyaden i harddu canol y bwrdd gyda llysiau cartref neu lysiau lleol yn tynnu dŵr o'r dannedd.

Rydym i gyd yn ffodus iawn ein bod, o fyw yng Nghymru, yn gallu cael y cigoedd a'r llysiau gorau, mwyaf ffres wedi'u cynhyrchu'n lleol; gellir eu paratoi, eu coginio a'u gweini mewn byr dro gan sicrhau eu hansawdd a'u blas a'r manteision maethol a ddeillia o hynny.

Mae sicrhau bod ein deiliaid yn cael bwydydd maethlon da yn bwysig er mwyn cadw'r cyhyrau, yr esgyrn, organau, a rhannau eraill o'r corff yn gryf; ac mae paratoi a choginio bwyd sy'n gyfoethog mewn fitaminau yn cryfhau imiwnedd ac yn ymladd tocsinau sy'n achosi salwch.

Mae cadw diddordeb deiliaid mewn bwyd yn flaenoriaeth uchel gennym, a chyflawnwn hyn ar sail ddyddiol drwy gyflwyno prydau sy'n edrych, blasu ac yn arogli'n dda.Gwnawn y mwyaf hefyd o'r Dathliadau Cenedlaethol a'r cyfnodau gwyliau i ddarparu diddordeb pellach yn y bwyd.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i'n deiliaid oll a'u teuluoedd oddi wrth dîm arlwyo Glyn Nest.

# *Ac yn olaf ….*

## Parchedig Irfon Roberts

### Cadeirydd Bwrdd Rheoli Glyn Nest

Cyfarchion y Tymor i'n darllenwyr oddi wrth Aelodau'r Pwyllgor Tŷ a Chyfarwyddwyr y Cartref.

Estynnir diolch diffuant a haeddiannol i bob aelod o'r Staff am eu gwaith a'u mewnbwn yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Gallaf eich sicrhau y gwerthfawrogir gwasanaeth pob un ohonoch. Sylwom yn ddiweddar fel y gwnaeth cynifer ohonoch fynd allan o'ch ffordd i sicrhau lles ein deiliaid yn ystod cyfnod annisgwyl o salwch, a fu'n gyfnod digon anodd i ddeiliaid a staff fel ei gilydd. Diolch yn arbennig i'r rhai hynny a gerddodd yr ail filltir yn gwbl ddirwgnach. Sylweddolwn fod eich dyletswyddau yn ddigon anodd yn aml ac rydym yn llwyr ymwybodol bod sefyllfaoedd yn codi sy'n profi amynedd y gofalwyr mwyaf tosturiol. Mae cartref Glyn Nest, drwy ymdrechion staff, yn y gorffennol a'r presennol, wedi ennill enw da o fewn y gymuned leol a thu hwnt i'w filltir sgwâr. Mae'n enwog am ei safon uchel o lanweithdra, y croeso cynnes, ansawdd bwyd rhagorol a'r gofal cariadus cyson a weinyddir. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn ymwybodol o hyn ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y freuddwyd gychwynnol bellach wedi ei gwireddu ers cyfnod o hanner canrif a mwy. Mae Glyn Nest wedi tyfu a datblygu ac o'r fesen fach gychwynnol datblygodd derwen braff.

Croesawn benodiad Liz Blackler fel Cydgysylltydd Gweithgareddau, penodiad y dylid fod wedi ei wneud ers tro. Dymunwn yn dda iddi yn ei rôl newydd a diolchwn iddi am ei syniadau arloesol. Rydym hefyd yn croesawu pob aelod newydd o'r staff ac yn gobeithio y byddant yn mwynhau'r profiad o weithio gyda theulu clos o weithwyr ymroddedig. Croeso 'nôl yn arbennig i Gwyneth sydd wedi brwydro'n ddewr a hir yn erbyn salwch.

Amheuthun a fu'r cyfleoedd diweddar a gaed i addoli pryd y gwahoddwyd deiliaid i gyfrannu i'r gwasanaethau. Gwelwyd bod cyfoeth o ddoniau yn bodoli ymhlith y deiliaid eu hunain yn ystod gwasanaethau'r Cynhaeaf a'r Nadolig. Diolch yn arbennig i Freda Pierce am agor ein llygaid i'r cyfoeth hwn – haedda cael ei feithrin a'i annog yn y dyfodol.

Wrth i mi ysgrifennu, mae'r Nadolig ar y trothwy. Heb yr Arglwydd Iesu ni fyddai gennym fawr ddim i'w ddathlu. Gadewch i bob un ohonom gofio mai Iesu yw achos y tymor. Erys yn ffaith, pa beth bynnag ein cred, na fyddai Glyn Nest wedi dod i fodolaeth hebddo Ef. Er gogoniant i'w Enw yr adeiladwyd y cartref hwn yn wreiddiol a dylai ein hymddygiad tuag at ein gilydd a'r deiliaid adlewyrchu'r ffaith honno bob amser.

Boed i ysbryd y Nadolig drigo ac aros ynom ymhell wedi i'r dathliadau a'r partïon seciwlar ddirwyn i ben.

Irfon C. Roberts Cadeirydd.

## Gofal Seibiant

Rydym yn deall……



Mae Glyn Nest yn cynnig sawl ffordd wahanol i ofalwyr gael seibiant o'u dyletswyddau gofal. Pa un ai am ddiwrnod, wythnos, neu gyfnod byr gall Glyn Nest ddarparu amgylchedd diogel a chymorth 24 awr i aelod o'ch teulu. Mae gofal seibiant yn rhoi tawelwch meddwl i chi y byddwn yn gofalu am eich anwyliaid, wrth i chi gael seibiant i adnewyddu eich nerth.

Mae gan Glyn Nest ystafell seibiant tymor byr neilltuedig â chyfleusterau en-suite, a gall hefyd gynnig llety am gyfnodau hwy os oes angen.

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â: Jayne Evans i gael ymgynghoriad preifat ynghylch argaeledd a gofynion.

**CYSYLLTU Â GLYN NEST**

Jayne Evans – Rheolwraig Gofrestredig

Jen Jones – Rheolwraig Busnes

Ffôn :01239 710 950

01239 710 503